**Llywodraeth Cymru**

**Asesiad Effaith Integredig DRAFFT**

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth - cynigion ymgynghori** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Tom Cleaver<br>Tim Snell<br>Bethan Jones Edwards<br>Angharad Clarke<br>Huw Gwyn Jones<br>Maria Turner<br>Joseph Wilton<br><br>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio** |
| **Adran:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Matt Jenkins** |
| **Y Gweinidog â chyfrifoldeb:** | **Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Hydref 2022** |

**Cynnwys**

**Adran 1 Pa gamau gweithredu mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried a pham?** .......... 1
**Adran 8 Casgliad** .......... 22

**Adran 1 - Pa gamau gweithredu mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried a pham?**

Cyflwyniad

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â 'Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth' Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'n ymdrin â'r cynigion canlynol o fewn y rhaglen:

Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir
Eitem 2 - Cynigion ar gyfer Swyddfa Genedlaethol ar dros Ofal a Chymorth
Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol
Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)
Eitem 5 – Newidiadau i Ran 9 o'r Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) a Newidiadau i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth
Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Crynhoir yr eitemau unigol hyn isod, ochr yn ochr ag esboniad o pam mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu datblygu:

Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir ('Y Fframwaith Cenedlaethol') yn God Ymarfer newydd o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014'). Mae'n sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth yng Nghymru gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae hyn yn cynnwys amlinellu egwyddorion a safonau cenedlaethol y mae'n rhaid i gomisiynwyr eu dilyn wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer eu poblogaethau lleol.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ailgydbwyso'r sylfaen ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol a thrwy symud oddi wrth bris tuag at ansawdd a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'n darparu ar gyfer mwy o gysondeb a thryloywder yn y cylch comisiynu.

Eitem 2 - Cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth

Mae'r cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth ('Y Swyddfa Genedlaethol') yn nodi swyddogaethau disgwyliedig y Swyddfa Genedlaethol, ar ôl ei sefydlu. Maent yn cynnig tair swyddogaeth graidd i'r Swyddfa Genedlaethol: rheoli trosolwg o'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a chydymffurfiaeth ag ef; datblygu, gweithredu a darparu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn barhaus; a chefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn ei rôl.

Y bwriad yw y bydd sefydlu un Swyddfa Genedlaethol yn cynorthwyo'r sector i ddatblygu mentrau gofal cymdeithasol cenedlaethol, unwaith i Gymru, gan ddarparu arweinyddiaeth gref o'r canol.

Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol

Mae'r fframwaith tâl a dilyniant gyrfa drafft wedi'i ddatblygu gan Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol. Mae'n nodi cyfres o fandiau ar gyfer gwahanol rolau i'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, ochr yn ochr â'r sgiliau, gwerthoedd, gwybodaeth, dealltwriaeth a thasgau nodweddiadol ar gyfer pob un. Hefyd, yn y dyfodol, bydd yn cynnwys map gyrfa o gyfleoedd ar gyfer camu ymlaen yn y sector a phecyn cymorth o broffiliau rôl enghreifftiol.

Bwriad y fframwaith yw gwireddu dyheadau ymrwymiad gwaith teg Cymru a strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Nodau eraill y fframwaith yw:

- gwella prosesau recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol
- helpu i ddatblygu'r gweithlu drwy barhau i wella sgiliau a gwybodaeth
- darparu llwybr cynnydd clir ar gyfer pobl sy'n ystyried ymuno â'r sector neu sydd eisoes yn gweithio yn y sector
- darparu fframwaith symlach ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig
- disgrifio gwerthoedd cadarnhaol gweithwyr gofal cymdeithasol
- darparu proses deg a thryloyw ar gyfer penderfyniadau cyfunol ac unigol yn ymwneud â chyflogau (yn ystod y cam hwn mewn sefydliadau unigol).

Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

Mae Rhan 2 y Cod Ymarfer ('Cod Rhan 2') yn nodi sut y dylai pobl sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae'r ddogfen hon yn fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cod Rhan 2 sy'n bodoli eisoes. Mae newidiadau wedi'u gwneud i ailstrwythuro'r ddogfen i'w gwneud yn fwy clir, er enghraifft, nodi'n fwy clir gyd-destun polisi Llywodraeth Cymru o ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol drwy gynyddu modelau darparu gwasanaethau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y trydydd sector, sy'n cynnwys mentrau cymdeithasol ac ati. Mae pennod newydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i'r angen am ddull sy'n seiliedig ar werthoedd cyd-gynhyrchu hefyd.

Eitem 5 - Newidiadau i Ran 9 o'r Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) a Newidiadau i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth

Mae Rhan 9 y Canllawiau Statudol yn nodi sut mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio'n effeithiol a chyda phartneriaid perthnasol eraill, drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol (BPRh), i wella canlyniadau iechyd a lles ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau mewn modd integredig. Mae Rhan 9 y Canllawiau Statudol ar drefniadau partneriaeth wedi'i ddiwygio'n llwyr i gryfhau'r trefniadau presennol ac i adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol gwaith

partneriaeth drwy'r BPRh a thirwedd esblygol cynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd integredig.

Er mwyn cryfhau rôl BPRh o ran goruchwylio effeithiolrwydd y trefniadau partneriaeth, cynigir gwelliannau i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys:

- ymestyn amcanion y BPRh, gan gynnwys gofyniad i weithio gyda Chorff newydd Llais y Dinesydd
- ehangu'r rhestr o aelodau BPRh a darpariaethau ynghylch recriwtio a chymorth i aelodau
- materion i'w cynnwys yn adroddiadau blynyddol BPRh
- newidiadau i adroddiadau blynyddol BPRh
- gofyniad newydd BPRh gynnal hunanasesiadau
- gofyniad newydd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd enwebu unigolyn cyfrifol ar gyfer arwain a sicrhau cydweithrediad.

Mae gwelliant arfaethedig hefyd i Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 fel y bydd rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lunio cynllun cyflenwi blynyddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun ardal pum mlynedd ar y cyd.

<u>Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o’r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol</u>

Mae'r canllawiau presennol ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yn hen ffasiwn ac nid ydynt yn cyfeirio at y fframweithiau canlyniadau a'r dulliau gweithredu sy'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Felly, mae'r canllawiau'n cael eu diweddaru i'w gwneud yn gywir.

Nodir cynnwys a strwythur yr Adroddiadau Blynyddol yn Rhan 8 y Cod Ymarfer a'r Rheoliadau cysylltiedig. Felly, mae'r ddau wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r canllawiau.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Pum ffordd o weithio*

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn nodi sut roedd pob un o'r eitemau unigol o dan y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol’). Ar gyfer cyd-destun, y pum ffordd o weithio yw'r meysydd penodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Y meysydd yw:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithredu
- Cyfranogiad.

**Hirdymor**

Bydd y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth, a'r eitemau unigol a restrir uchod, yn cael eu heffeithio i wahanol raddau gan dueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor sy'n effeithio ar y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Crynhoir y rhain isod:

Newid yn y boblogaeth ac anghenion cynyddol

Mae mwy a mwy o angen am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd cyfran y bobl dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu o 9.9% o'r boblogaeth yn 2021 i 13.8% yn 2041, gan godi o tua 307,000 o bobl i tua 455,000 o bobl. Disgwylir i gyfran y bobl 65 oed neu'n hŷn gynyddu o ychydig dros un o bob pump o'r boblogaeth yn 2021 (neu 21.4%) i dros un o bob pedwar o'r boblogaeth erbyn 2041 (neu 25.5%). Er na ellir cysylltu'r galw am ofal ffurfiol yn y dyfodol â phoblogaeth sy'n heneiddio yn unig, mae'n debygol o arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal ffurfiol. Mae mwy o bobl yn byw o'u genedigaeth gyda chyflyrau sydd angen mathau o ofal gydol oes, ac mae nifer uchel o blant sy'n derbyn gofal. Mae'r pwysau a ddaeth yn sgil y newidiadau hyn mewn demograffeg yn gosod y cyd-destun, yn rhannol, ar gyfer yr holl eitemau a restrir o fewn yr asesiad effaith hwn sy'n cael eu datblygu o dan y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth.

Heriau ariannu

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn ganran uwch o wariant cyffredinol llywodraeth leol. Mae costau comisiynu a chwyddiant cyflogau yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r galw cynyddol ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r mater yn arbennig o berthnasol i Eitem 1 - Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir.

Cynaliadwyedd y gweithlu

Mae darparu gofal cymdeithasol yn llafurddwys, ac mae argaeledd gweithlu medrus yn hollbwysig wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi parhad a'r ffaith eu bod yn adnabod y bobl sy'n darparu gofal personol iawn yn aml, a'i bod yn bwysig creu perthynas gan fod hynny'n gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel. Mae datblygu cysylltiadau cadarnhaol yn hanfodol ar gyfer gofal diogel, effeithiol o ansawdd uchel ac mae'n bwysig i bawb, plant ac oedolion.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn heneiddio ac yn rhyweddol fel y rhelyw, gyda'r rhan helaeth o staff darparwyr gofal wedi'i gomisiynu yn fenywod, ac mae dros hanner y gweithlu dros 40 oed. Nododd y SYG fod cyfraddau trosiant staff ar gyfer yr holl weithlu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn 30% yng Nghymru. Yn ogystal â throsiant uchel, mae'r problemau presennol yn cynnwys cyfraddau swyddi gwag uchel, costau recriwtio a hyfforddi staff newydd, y defnydd cynyddol o staff asiantaeth drytach a chyfraddau trosiant yn y sector gyda staff yn symud yn aml rhwng cyflogwyr, yn aml oherwydd cymhellion ariannol neu amodau gwaith gwell. Fel rhan o'r Comisiwn Gwaith Teg, nododd adroddiad Gwaith Teg Cymru, er bod y sector yn ddiwydiant craidd sy'n cyfrannu at les unigol a chymdeithasol, ei fod yn sector sy'n arddangos nodweddion amrywiol sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ac amgylchedd gwaith gwael.

Mae ymchwil yn dangos bod cyflog, telerau ac amodau yn cael eu hystyried yn ffactorau allweddol sy'n ymwneud â boddhad mewn swydd, ac mae cysylltiad pwysig rhwng boddhad mewn swydd, ansawdd gwasanaeth a chyflawni canlyniadau. Ystyrir bod gwella cyflog, telerau ac amodau yn rhan bwysig o ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector, yn enwedig ar gyfer gofal cartref lle rydym yn gwybod bod cyflogau'n is ac oriau gwaith yn llai dibynadwy nag mewn rhannau eraill o'r sector. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.

Heriau'r farchnad Gofal a Chymorth

Mae'r ystad ofal yng Nghymru yn cynnwys darparwyr preifat llai yn bennaf, gydag elw bach a chronfeydd cyllid cyfyngedig. Mae mwy o oedolion yn derbyn gofal a chymorth gartref lle bo hynny'n bosibl, yn unol â'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hyn wedi creu lefel o alw sy'n fwy na maint y ddarpariaeth gofal cartref sydd ar gael. Yn aml, mae'r gyfran fwyaf o oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai wedi'i briodoli i bobl sy'n aros i ddychwelyd i'w cartrefi gyda phecynnau gwasanaethau gofal cartref ar waith. Mae'r problemau hyn yn arbennig o berthnasol i Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), mewn perthynas â sut mae'r Cod sydd wedi'i ddiweddaru yn nodi'n gliriach gyd-destun polisi Llywodraeth Cymru o ran ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol.

Comisiynu a chymhlethdod

Comisiynydd yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio staff o'r awdurdod lleol neu fwrdd iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y math cywir o ofal ar gael i bobl yn eu hardal. Mae'r comisiynwyr gofal cymdeithasol yn dadansoddi angen, yn trefnu a chynllunio darpariaeth briodol o wasanaethau, yn sicrhau'r ddarpariaeth honno ac yn monitro ansawdd a dull cyflawni'r ddarpariaeth yn barhaus.

Mae comisiynwyr yng Nghymru yn caffael gwasanaethau ac yn gwneud trefniadau rheoli contractau yn bennaf. Mae hyn yn heriol, oherwydd cymhlethdod y farchnad, ac mae wedi arwain at ddarparu gormod neu ddim digon o wasanaethau gofal a chymorth.

Er mwyn ymateb i'r heriau uchod, nod Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir yw sicrhau cysondeb o ran arferion comisiynu, gan sicrhau bod gwaith comisiynu'n cael ei wneud gan ddilyn safonau ac egwyddorion a bennir yn genedlaethol.

**Atal**

Mae'r adran flaenorol yn crynhoi'r heriau allweddol ym maes gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â'r cynigion hyn. Ni all unrhyw ymyrraeth neu gynnyrch unigol fynd i'r afael yn llawn â'r achosion sylfaenol hyn. Fodd bynnag, bydd yr eitemau unigol o dan y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r rhain mewn ffordd ataliol ac ymateb iddynt fel a ganlyn

Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir

Gall y Fframwaith Cenedlaethol arwain at effeithlonrwydd posibl yn y tymor hwy drwy sbarduno cysondeb gwell mewn prosesau comisiynu mewn ffordd ragweithiol. Hefyd, mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ailgydbwyso’r sail ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol a thrwy symud oddi wrth bris tuag at ansawdd. Gall y newid hwn i fodel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ansawdd gael effaith ataliol o ran darparu gofal o ansawdd uwch sy'n cyfateb yn well i anghenion unigol pobl, gan arwain at ganlyniadau gwell i bobl yn y tymor hwy o bosib. Gallai hyn arwain at ostyngiadau yn eu hanghenion am ofal a chymorth mwy helaeth yn y dyfodol oherwydd y Fframwaith Cenedlaethol, sy'n golygu bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u rheoli'n well.

<u>Eitem 2 - Cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth</u>

Un o amcanion allweddol y Swyddfa Genedlaethol fydd hyrwyddo a chefnogi gwasanaethau ataliol, a bydd yn galluogi, cynghori, cefnogi a gweithredu i sicrhau bod blaenoriaeth o'r fath yn cael ei chyflawni.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol hefyd yn ceisio sicrhau capasiti ac arbenigedd hefyd er mwyn helpu i weithredu polisïau cenedlaethol a sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn dryloyw ac yn eglur. I wneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn hwyluso cydweithio rhwng y system / dysgu a rennir â phartneriaid lleol / rhanbarthol i rannu arfer gorau a pharhau i gefnogi arloesedd lleol / rhanbarthol ar yr un pryd. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn darparu cymorth arweiniol canolog hefyd er mwyn cynorthwyo arweinyddiaeth yn y system gofal cymdeithasol, gan hwyluso a chefnogi'r sector ac, os oes angen, darparu arweinyddiaeth gadarn i'r sector ar gyfer gwaith gwella a thrawsnewid yn unol â nodweddion a safonau cenedlaethol.

<u>Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol</u>

Bydd y cynigion Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa yn helpu i wella recriwtio a chadw staff; safoni ymddygiad a sgiliau cadarnhaol, gan ennyn awydd am welliant parhaus yn y gweithlu; darparu llwybrau dilyniant clir a chreu graddfa gyflog dryloyw a theg.

Mae'r fframwaith tâl a dilyniant  gyrfa drafft ("Y Fframwaith") yn cyfrannu at ein huchelgais tymor hwy i godi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio, gwella cyfleoedd i unigolion gamu ymlaen yn eu gyrfa, a helpu i wella recriwtio a chadw staff. Mae'n cyfrannu hefyd at ganiatáu i unigolion sicrhau canlyniadau cadarnhaol, a gall effeithio'n gadarnhaol ar gapasiti a morâl y gweithlu.

Bydd y codiad cyflog arfaethedig yn cyfrannu at gynnydd mewn incwm aelwydydd. Gallai hyn gael ei effeithio gan ostyngiadau i fudd-daliadau, fodd bynnag mae lles yn nwylo Llywodraeth y DU. Bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn berthnasol i bobl dan 23 oed, felly gall pobl ifanc 16–18 oed sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol gael codiad cyflog hefyd. Bydd i ba raddau mae hyn yn digwydd yn ymarferol yn rhan o'r gwerthusiad dynamig.
Mae'n un rhan o becyn gwaith ehangach sydd â'r nod o wella telerau ac amodau'r gweithlu, a hyrwyddo'r sector fel lle gwerth chweil i weithio. O'u cyfuno, nod yr ymdrechion hyn yw gwella recriwtio a chadw staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol,

gan wella parhad ac ansawdd y gofal i unigolion, yn ogystal â bod yn sail i wella ansawdd gofal cyffredinol ar draws y sector. Bydd gwelliannau o ran recriwtio a chadw staff yn helpu i sicrhau bod pobl mewn cymunedau’n gallu symud i leoliad gofal sy'n briodol i'w hanghenion a hynny lle gallant aros yn eu cymuned eu hunain.

Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

Mae'r Cod Rhan 2 yn cynnwys pennod sy'n nodi'n benodol y gofynion i awdurdodau lleol a phartneriaid ddarparu neu drefnu casgliad o wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar integredig. Mae'r cod diwygiedig wedi ceisio cryfhau ac egluro'r gofynion yn y bennod hon, yn enwedig yng ngoleuni'r modelau newydd o ofal integredig.

Mae'r diwygiadau'n rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Gall cyd-gynhyrchu gwasanaethau gofal a chymorth gyda defnyddwyr gwasanaethau gael effaith ataliol gan fod gwasanaethau a gaiff eu cynllunio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau’n cyd-fynd yn well â'u hanghenion gofal a chymorth fel arfer, ac felly'n fwy tebygol o ddiwallu eu hanghenion yn y tymor hwy a lleihau'r tebygolrwydd y bydd eu hiechyd a'u lles yn dirywio.

Mae'r diwygiadau’n ceisio egluro'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a’r trydydd sector. Bydd hyrwyddo mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector yn y farchnad gofal cymdeithasol yn cael effaith fuddiol ar atal ac ymyrraeth gynnar, gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan bartneriaid yn y trydydd sector neu mewn cydweithrediad â nhw.

Eitem 5 - Canllawiau Statudol - Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

Un o brif nodau gwaith partneriaeth yw sicrhau bod gofal a chymorth, gan gynnwys gwasanaethau ataliol, yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd integredig. Mae'r trefniadau partneriaeth yn dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid allweddol eraill (gan gynnwys dinasyddion, darparwyr a'r trydydd sector) ynghyd, drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i ymateb i'r asesiadau o anghenion y boblogaeth a gweithredu'r cynllun ardal pum mlynedd ar y cyd. Bydd cryfhau'r trefniadau hyn yn helpu i atgyfnerthu ac ymestyn gallu'r BPRh i ddefnyddio dull strategol ac integredig o gynllunio a chyflawni, gyda ffocws penodol ar wasanaethau ataliol a chymunedol.

Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o’r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Mae'r canllawiau newydd ar gyfer yr Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu tystiolaeth a blaenoriaethau ar gyfer gwella o dan wyth safon ansawdd. Caiff y safonau hyn eu grwpio o dan bedwar pennawd, ac un o'r rhain yw Atal. Byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol nodi pa gamau atal y maent wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y dystiolaeth i ddangos gwelliant a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ar

gyfer y flwyddyn i ddod. Yn benodol, byddwn yn gofyn am welliant yn erbyn y safonau canlynol:

- *Mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac mae uwchgyfeirio angen yn cael ei atal, gan sicrhau bod y canlyniadau gorau i bobl yn cael eu cyflawni*
- *Mae gwydnwch mewn cymunedau'n cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas*"

**Integreiddio**

Mae'r rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth yn cysylltu â sawl un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, ac yn eu symud yn eu blaen. Fe'u rhestrir fesul eitem unigol isod:

<u>Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir</u>

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cyfrannu at amrywiaeth o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys diwygiadau mewn gwasanaethau plant a gwasanaethau gofal yn dod yn rhan o'r Economi Sylfaenol yng Nghymru ac yn cael eu gweld fel cam cyntaf allweddol sylweddol tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Bydd y Cod hwn yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol a'r GIG i gomisiynu gwasanaethau yn unol ag uchelgais Deddf 2014, a gwella canlyniadau i bobl Cymru. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn nodi'r egwyddorion a'r safonau i gomisiynwyr eu dilyn wrth gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion poblogaethau lleol, felly bydd yn enghraifft o'r pum ffordd o weithio yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyd-fynd â'r weledigaeth a nodir yn Neddf 2014.

<u>Eitem 2 - Cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth</u>

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyd-fynd ag amcanion traws-system a, lle bynnag y bo'n berthnasol, yn galluogi cyflawni'r amcanion traws-system hynny, gan gynnwys:

- Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu
- Ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio
- Y pum ffordd o weithio sydd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru, gan wneud gwaith allweddol i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, gan gydnabod bod y Gymraeg yn perthyn i bawb a nodi pwysigrwydd dewis ac angen iaith wrth ddarparu gofal a chymorth o ansawdd sy'n cyd-fynd â'r fframwaith Mwy na Geiriau
- Cymru Iachach.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn ei hyrwyddo, gan wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn hyrwyddo prosesau gweithio gwell gyda phobl, cymunedau a phartneriaid ac yn ceisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 'egwyddor datblygu cynaliadwy', felly mae cynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol yn hollbwysig. Bwriedir i'r Swyddfa Genedlaethol weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod gwaith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth presennol yn gwella rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

Bydd y weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn cael ei threialu er mwyn sicrhau cysondeb parhaus â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cyd-fynd â'n cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach. Hefyd, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgorffori pedair egwyddor sylfaenol Deddf 2014: llais a rheolaeth, atal ac ymyrraeth gynnar, llesiant, a chyd-gynhyrchu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni trwy swyddogaethau craidd y Swyddfa Genedlaethol a rolau a chyfrifoldebau ychwanegol, megis casglu data a gwybodaeth. Y swyddfa fydd yn gwneud y gwaith hwn.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgorffori newid trwy hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ er mwyn ymgorffori newidiadau a gwerthoedd ystyrlon fel rhan o fywyd Cymru. Bydd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gweithredu fel sbardun i sicrhau arweinyddiaeth amlwg ar bob lefel er mwyn gwireddu ymrwymiadau presennol a herio hiliaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau teg, sy'n briodol yn ddiwylliannol, gan gydnabod croestoriadedd a gwahaniaethau ymysg grwpiau. Mae hawliau LHDTC+ wedi'u gwreiddio yn ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac maent yn elfen allweddol o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, a gafodd ei ddatblygu gyda'r nod o sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop, yn nodi camau gofal cymdeithasol a lles, a bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyflawni rôl allweddol i sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gwreiddio ac yn cefnogi'r fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg, Mwy na geiriau 2022-27. Wrth wneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i dderbyn gofal yn eu hiaith gyntaf.

Er mwyn cyfrannu at Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn effro i'r targed sero net ar gyfer y sector cyhoeddus yn 2030, a bydd yn hyrwyddo cynlluniau gweithredu datgarboneiddio a gwerth cymdeithasol er mwyn cyflawni hyn.

Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol

Mae'r cynnig hwn yn seiliedig ar nifer o ganfyddiadau, gan gynnwys Adroddiad Gwaith Teg Cymru, gwaith y Comisiwn Gwaith Teg (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf), y Rhaglen Lywodraethu, trafodaethau Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ("y Fforwm"), y Sefydliad Cyflog Byw a'r adroddiad ar Gyflog Byw Gwirioneddol yr Alban.

Mae'n cyd-fynd â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn helpu i adeiladu Cymru fwy llewyrchus a gwydn, lle mae gweithwyr yn cael cyflog teg ac yn gwario'r cyflog hwn yn eu cymunedau; a chryfhau gwasanaethau gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a pharhau i ddarparu gwasanaethau o safon wrth iddynt ddilyn llwybrau gyrfa clir. Mae'n adeiladu ar waith ehangach Gweinidogion a'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol hefyd ar delerau ac amodau mewn gofal cymdeithasol. Mae'n rhan o'r agenda i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol a darparu llwybrau gyrfa gwell; ochr yn ochr â'r uchelgais tymor hwy i godi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio, gwella cyfleoedd i unigolion gamu ymlaen yn eu gyrfa, a helpu i wella recriwtio a chadw staff.

Roedd yr ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn rhan o Faniffesto Llafur Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu ddilynol ar gyfer 2021-26; a dyma oedd y man cychwyn ar gyfer gwell telerau ac amodau i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r cynnig yn integreiddio â chydnabyddiaeth y Fforwm o heriau cyflog isel yn y sector ac yn cysylltu ag amcanion polisi yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo iechyd a lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae'n cyfrannu at ganiatáu i unigolion gyflawni canlyniadau cadarnhaol, a gall effeithio'n gadarnhaol ar gapasiti a morâl y gweithlu. Gyda mwy o gydnabyddiaeth o'r gweithlu, gallwn ddatblygu'r ymrwymiad "Cymru Iachach" i integreiddio gwasanaethau ymhellach ac atgyfnerthu'r cyfathrebu rhwng staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol i adeiladu gwasanaethau gofal a chymorth mwy cynaliadwy a gwydn ar gyfer y dyfodol.

<u>Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)</u>

Mae diwygiadau i'r Cod Rhan 2 yn cynnwys diweddaru'r gofynion ynghylch cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu cynnal ar y cyd ar ôl troed rhanbarthol. Yn ogystal ag asesu'r angen am ofal a chymorth, rhaid i'r asesiadau hyn nodi hyd a lled a lefel y gwasanaethau fydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny hefyd, a rhaid iddynt gynnwys gwasanaethau a dulliau integredig. Mae'r diwygiad yn cryfhau'r gofynion a'r canllawiau ynghylch darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar integredig hefyd.

<u>Eitem 5 - Canllawiau Statudol - Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)</u>

Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn cynnwys gwella amcanion BPRh i gynnwys yn benodol sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaethau a threfniadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae hyn yn cysylltu â'u hamcanion allweddol presennol i sicrhau bod cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i ymateb i'r asesiadau o anghenion y boblogaeth a gweithredu'r cynllun ardal pum mlynedd ar y cyd. Mae diwygiadau arfaethedig hefyd i'r Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i BPRh gynnal hunanasesiad bob dwy flynedd, a'i gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth ddatblygu cynlluniau cyflenwi blynyddol sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau ardal ar y cyd. Nod y gofynion newydd hyn yw cryfhau cynllunio rhanbarthol a monitro perfformiad, yn ogystal â gwella llywodraethu a chraffu ar y trefniadau partneriaeth. Bydd hyn i gyd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau gofal

cymdeithasol ac iechyd yn cael eu hintegreiddio'n well. Mae Canllawiau Statudol Rhan 9 wedi'u diwygio'n drylwyr hefyd, gyda mwy o ffocws ar integreiddio, gan gynnwys diffiniad newydd.

Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Mae'r canllawiau newydd ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol yn ystyried y gofynion adrodd ar gyfer yr awdurdod lleol ehangach a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddarparu gofal. Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Gydol y canllawiau, mae'r adroddiad hwn sy'n ofynnol yn statudol yn cael ei alw'n "adroddiad adran 144A" i wahaniaethu rhyngddo ag unrhyw adroddiad dewisol ar wahân a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd a'r adroddiad hunanasesu corfforaethol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf "2021").

Mae adrannau 89-91 o Ddeddf 2021 yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i gadw eu perfformiad dan adolygiad, i ymgynghori â phobl leol ac eraill ar y perfformiad ac i gyflwyno adroddiad blynyddol ar berfformiad mewn "adroddiad hunanasesu". Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau ar y dyletswyddau newydd hyn: Perfformiad a llywodraethu awdurdodau lleol: canllawiau statudol | LLYW.CYMRU.

Bwriad yr hunanasesiad ar gyfer adroddiad adran 144A yw adlewyrchu egwyddorion hunanasesu'r adroddiad a gynhyrchir o dan Ddeddf 2021, ond ar lefel gwasanaeth yn hytrach na lefel gorfforaethol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y broses adrodd flynyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r Fframwaith Gwella Perfformiad newydd erbyn hyn. Dyma god a wnaed o dan adran 145 o Ddeddf 2014 ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r safonau ansawdd sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau yn cyd-fynd â Chod Ymarfer Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Maent yn gysylltiedig â'r saith nod llesiant yn Adran 4 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd.

**Cydweithredu**

Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir

Gan fod y Cod hwn yn ymwneud â'r broses o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, y partneriaid statudol a fydd â diddordeb cyffredin fydd Awdurdodau Lleol a'r GIG gan eu bod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol. Gan fod cyfran uchel o wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu cyflawni gan ddarparwyr preifat a thrydydd sector, bydd gan amrywiaeth o ddarparwyr

gwasanaethau ddiddordeb cyffredin yn y Cod hwn hefyd a gall fod yn ofynnol i'r comisiynwyr gyflawni rhai agweddau ar y Cod i'w darparwyr gwasanaethau drwy eu trefniadau cytundebol. Yn yr un modd, oherwydd cynnwys y Cod a'r safonau a bennir ynddo, bydd nifer o randdeiliaid allweddol a fydd â diddordeb cyffredin hefyd, yn enwedig y rhai sy'n gweithio'n genedlaethol, er enghraifft Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru o safbwynt rheoleiddio; sefydliadau cenedlaethol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol.

Er mwyn datblygu'r polisi, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Technegol Cenedlaethol o sefydliadau sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn comisiynu a chaffael gwasanaethau gofal cymdeithasol. Aeth y Grŵp Technegol ati i lywio cynnwys y Cod a darparu adroddiad argymhellion ar y cynnwys i Lywodraeth Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn gyfle i'r holl bartneriaid, rhanddeiliaid a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau lywio'r Cod Ymarfer.

<u>Eitem 2 - Cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth</u>

Er mwyn helpu i sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol, mae Grŵp Llywio wedi'i ffurfio. Mae'r Grŵp Llywio hwn yn gweithredu fel fforwm cynghori, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y rhanddeiliaid canlynol:

Gweithrediaeth y GIG
Arolygiaeth Gofal Cymru
ADSS Cymru
CLlLC
Conffederasiwn GIG Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Y Bwrdd Gweithredol
Byrddau Iechyd Lleol y GIG
Fforwm Gofal Cymru

Yn hollbwysig, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n agos gyda'r 22 Awdurdod Lleol a'u timau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan Lywodraeth Leol gyfrifoldebau statudol i ddarparu gofal a chymorth digonol er mwyn diwallu anghenion llesiant pobl. Mae gwreiddiau Gofal Cymdeithasol mewn llywodraeth leol, felly mae'r broses o alluogi system gymhleth, gan gynnwys rôl y GIG wrth gomisiynu lefelau sylweddol o ofal a chymorth, er mwyn gweithio ar y cyd, yn ganolog i'n weledigaeth. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cynnwys cynrychiolaeth gyfartal o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol, a rhanddeiliaid trwy ofyn am adborth a mewnbwn i waith y Swyddfa Genedlaethol.

Er mwyn gwneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cynorthwyo'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i ddarparu cyfeiriad strategol a chryfhau arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a chefnogi gwaith gwella ansawdd er mwyn gwella canlyniadau i bobl. Yn ogystal â chefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgysylltu ac yn cydweithio â phobl sy'n derbyn gwasanaethau, ac â'r gweithlu gofal cymdeithasol, er mwyn nodi ac ysgogi gwelliannau. Bydd y bartneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru'n

hollbwysig hefyd. Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae'n cyflawni swyddogaethau gwella allweddol. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ledaenu negeseuon cadarnhaol am weithio ym maes gofal cymdeithasol, ac am weithgarwch gwella sy'n gyson â'i rôl ei hun wrth oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith cenedlaethol, a thrwy gasglu data a gwybodaeth ehangach am y sector.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cydweithio â Gweithrediaeth GIG Cymru er mwyn hyrwyddo'r broses o integreiddio gwasanaethau i greu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, gan ddarparu cyfeiriad cenedlaethol i wella canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol

Mae'r fframwaith tâl a dilyniant drafft wedi'i ddatblygu gan Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020 yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn Gwaith Teg Cymru. Grŵp partneriaeth gymdeithasol tridarn yw'r Fforwm sy'n cynnwys cyflogwyr, awdurdodau lleol, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill. Ei nod yw gwella trefniadau gweithio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, eu clywed a'u cynrychioli, a'u bod yn gallu camu ymlaen yn eu gyrfa mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

Cafodd y diwygiadau arfaethedig i bennod 4 y Cod Rhan 2, ar ddyletswydd awdurdod lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol ac ati, eu datblygu mewn trafodaeth gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais. Manteisiodd y geiriad newydd ynghylch y gwerth 'cymdeithasol / ychwanegol' ar y gwaith a gomisiynwyd gan Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt) ac fe'i profwyd gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r Grŵp Technegol yn datblygu'r fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth. Mae'r cod diwygiedig yn ailadrodd yr angen i bob rhanbarth fod â fforwm neu fforymau sy'n dod â chomisiynwyr a sefydliadau adran 16 ynghyd i rannu arfer da a manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad i ehangu a hyrwyddo'r sector hwn. Datblygwyd y bennod 5 newydd ar gyd-gynhyrchu gyda chymorth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais, a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwr di-dâl sy'n aelodau o Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol. Bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn helpu i ddatblygu'r deunydd ar ymgysylltu a chyd-gynhyrchu yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9 hefyd, gan helpu i sicrhau diffiniadau a dulliau cyffredin o ymdrin ag ymarfer cyd-gynhyrchu ar lefel ranbarthol a lleol.

Eitem 5 - Canllawiau Statudol - Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

Nod y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, a'r diwygiadau i Ganllawiau Statudol Rhan 9, yw cryfhau gwaith partneriaeth gydweithredol ar lefel ranbarthol a lleol o dan oruchwyliaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byrddau amlsector yw'r BPRh, gyda llawer o'r aelodaeth yn dod o'r cyrff partneriaeth (awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd), gyda phartneriaid sector

cyhoeddus eraill a chynrychiolwyr o ddarparwyr gofal, y trydydd sector a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl. Bydd y cynigion yn ymestyn yr aelodaeth i randdeiliaid eraill, gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru. Bydd gofyniad hefyd i'r BPRh gydweithio â Chorff newydd Llais y Dinesydd.

Cyfrannodd pob un o'r pum Grŵp Gorchwyl a Gorffen fewnbwn i'r canllawiau newydd ac, ym mis Rhagfyr 2022, cawsant eu dwyn ynghyd ar gyfer adolygiad cyfunol o ddeunyddiau Rhan 2 a Rhan 9.

Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Mae'r Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddogfen allweddol ar gyfer asesu perfformiad a gwelliant adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol. Yn hynny o beth, maent yn destun craffu manwl gan sawl partner, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a llawer o sefydliadau lleol a rhanbarthol.

Yn ogystal â'r mesur ansawdd atal, bydd rhaid i awdurdodau lleol ddarparu blaenoriaethau ar gyfer gwella o dan y maes Partneriaethau ac Integreiddio hefyd. Yn benodol, bydd hyn yn gofyn am dystiolaeth o wella a blaenoriaethau o dan y safonau canlynol:

- *Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu'n llawn ganlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl*
- *Mae pobl yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses o gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal.*

Datblygwyd y canllawiau newydd gan Practice Solutions, sefydliad annibynnol a gynullodd banel rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol ym maes gofal cymdeithasol. Yn ogystal â'r panel hwn, cynhaliwyd sawl gweithdy gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i drafod y problemau gyda'r canllawiau presennol a'r anghenion ar gyfer gwella. Roeddent yn cyfrannu hefyd at yr anghenion fydd gennym ni wrth weithredu'r canllawiau hyn. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn pa gymorth pellach sydd ei angen wrth ei gyflwyno.

**Cyfranogiad**

Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir

Fel rhan o ddatblygu'r Fframwaith Cenedlaethol, gofynnwyd i sefydliadau a phartneriaid sy'n cynrychioli'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth roi eu barn a llywio'r Cod Ymarfer drafft.

Mae'r hyn sy'n bwysig i bobl yn allweddol yng nghyd-destun comisiynu gwasanaethau ac mae'r datganiad sydd wedi'i gynnwys mewn nifer o Godau Ymarfer o dan Ddeddf 2014 wedi'i addasu ymhellach ac mae'n ganolog i'r ethos yn y Cod drafft:

*"Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i, gyda phobl yn cydweithio i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwyr (a'n hanghenion), gyda fy muddiannau pennaf i yn ganolog i hynny, gan roi llais, dylanwad a rheolaeth i mi, gan ddwyn ynghyd y gwasanaethau a'r rhwydweithiau cymorth fydd yn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i mi"*

Felly, mae comisiynu ar gyfer canlyniadau'n allweddol yn y Cod drafft hwn, yn ogystal â sicrhau arferion comisiynu cynaliadwy.

Yn fwy eang, mae gan y gwaith sy'n cael ei arwain drwy'r Grŵp Technegol Cenedlaethol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen aelodaeth o bob rhan o'r sectorau yng Nghymru. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym wedi ystyried yr hyn mae comisiynwyr wedi'i ddweud wrthym hefyd ar ôl cwblhau arolwg Comisiynu a gynhaliwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

<u>Eitem 2 - Cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth</u>

Mae grŵp llywio ymgynghorol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid (a restrir yn yr adran 'cydweithredu' uchod), wedi bod yn rhan o ddatblygiad y swyddfa genedlaethol o'r cychwyn cyntaf. Cyn hyn, cafodd rhanddeiliaid a dinasyddion gyfle i ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ym mis Ionawr 2021 drwy'r cwestiwn a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar sefydlu swyddfa genedlaethol.

Yn ehangach, er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o ffurf a swyddogaeth Swyddfa Genedlaethol, rydym wedi ymgysylltu â'r canlynol hefyd:

Cyfarwyddwyr a Dirprwy Gyfarwyddwyr yn y Grŵp IGC, Llywodraeth Cymru
Arweinwyr rhaglen Gweithrediaeth y GIG
Maethu Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
Bwrdd Gweithredol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
CLlLC
AGC
ADSS Cymru
Conffederasiwn GIG Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Byrddau Iechyd Lleol y GIG
Fforwm Gofal Cymru

<u>Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol</u>

Mae'r fframwaith tâl a dilyniant drafft wedi'i ddatblygu gan Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020 yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn Gwaith Teg Cymru. Grŵp partneriaeth gymdeithasol tridarn yw'r Fforwm sy'n cynnwys cyflogwyr, awdurdodau lleol, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill. Mae undebau llafur wedi cynrychioli llais gweithwyr drwy ddatblygu'r cynnyrch ochr yn ochr â Hugh Irwin Associates a gynhaliodd weithgarwch ymgysylltu cynnar gyda gweithwyr ar draws y sector.

Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

Mae gan y Cod Rhan 2 diwygiedig bennod newydd ar ymgysylltu, llais a chyd-gynhyrchu, sy'n diweddaru, cryfhau a rhoi mwy o amlygrwydd i ddeunydd yn y cod presennol.

Eitem 5 - Canllawiau Statudol - Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i geisio cryfhau llais ac ymgysylltiad dinasyddion, y trydydd sector a phartneriaid eraill yng ngwaith y partneriaethau rhanbarthol ac, yn benodol, ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd amcan newydd i BPRh weithio gyda Chorff newydd Llais y Dinesydd i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yng ngwaith y bartneriaeth ranbarthol. Byddai gan Gorff Llais y Dinesydd statws sylwedydd annibynnol ar y BPRh hefyd.

Bydd y Rheoliadau diwygiedig a'r Canllawiau Statudol yn mynd i'r afael yn benodol hefyd â rôl a statws defnyddiwr gwasanaethau, gofalwr di-dâl, y trydydd sector a chynrychiolaeth darparwr gofal ar y BPRh. Mae hyn o ganlyniad i waith manwl a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Llais. Mae'r cynigion yn cynnwys diwygio'r Rheoliadau fel y bydd yn ofynnol i BPRh lunio disgrifiadau rôl, rhoi trefniadau recriwtio tryloyw a hygyrch ar waith a chymryd camau ymarferol i gefnogi aelodau'r bwrdd. Rhoddir canllawiau helaeth pellach yn y Canllawiau Statudol diwygiedig, sy'n cynnwys Siarter BPRh newydd hefyd. Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn rhoi lle ar BPRh hefyd i gynrychiolwyr darparwyr gofal sylfaenol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol, ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – gan ddod â mwy fyth o leisiau i'r bwrdd.

Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i BPRh gynnwys gwybodaeth yn eu hadroddiadau blynyddol am sut mae'r BPRh wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc) yn ei waith, sut mae wedi hyrwyddo cyd-gynhyrchu a'r gwahaniaeth mae'r gweithgareddau hyn wedi'i wneud i ganlyniadau llesiant dinasyddion. Mae gan y Canllawiau Statudol diwygiedig ddeunydd newydd ar gyd-gynhyrchu hefyd (sy'n atgyfnerthu ar lefel partneriaeth ranbarthol y negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer Rhan 2 ar gyfer awdurdodau lleol).

Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau newydd, gofynnwyd i sefydliadau a phartneriaid sy'n cynrychioli'r rhai sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol fynegi eu barn. Datblygwyd y canllawiau ar y cyd â grŵp rhanddeiliaid arbenigol, a chafodd y fersiwn derfynol ei chymeradwyo gan y rhai a gefnogodd ei datblygiad.

Mae'r canllawiau’n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol ymateb i ddau ddatganiad ansawdd ynghylch pobl. Un o'r rhain yw mynd i'r afael yn benodol â'r angen i gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau am eu gofal:

- *Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros eu bywydau ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.*

Mae yna ddatganiad ansawdd ar gyfer lles hefyd, sy'n annog pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i gymryd rhan weithredol yn eu gofal.

- *Mae pobl yn cael eu cefnogi i fynd ati i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial a byw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd.*

**Effaith**

Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, rydym wedi dechrau ystyried effaith bosibl y cynigion hefyd, gan gynnwys y prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn y cynigion.

<u>Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir</u>

Mae Deddf 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n diffinio llesiant ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant i'w cyflawni. Mae'r datganiad hwn yn diffinio canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru, gan gynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.

Drwy osod egwyddorion a safonau comisiynu cenedlaethol, nod y Fframwaith Cenedlaethol yw galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid i gyflawni eu swyddogaethau fel bod pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn gallu cyflawni eu llesiant. Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)[1] ar gyfer Deddf 2014 ac mae'r effeithiau disgwyliedig y bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn eu cael ar bobl yn yr RIA yr un fath â'r rhai a nodir yn yr RIA. Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw cyflymu pa mor gyflym y caiff yr effeithiau hyn eu gwireddu.

Drwy osod gofynion a chanllawiau statudol pellach ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG mewn perthynas â chanolbwyntio comisiynu ar ansawdd a chanlyniadau, bydd y Cod yn helpu i gyflymu nod arfaethedig Deddf 2014 i symud i ddull sy'n rhoi pobl yn y canol, y canlyniadau y maent am eu cyflawni, a rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt.

Bydd darpariaethau’r Fframwaith mewn perthynas â thâl yn helpu amcanion ehangach Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o gysondeb i'r gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth. Mae'r darpariaethau yn y Fframwaith i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol yn bwysig gan fod cysondeb yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar gyflawni canlyniadau pobl. Drwy gefnogi'r gweithlu, nod y Fframwaith Cenedlaethol yw hwyluso llai o drosiant a fydd yn caniatáu i bobl feithrin

[1] https://senedd.cymru/media/2plbn5qs/pri-ld9181-em-e-cymraeg.pdf

perthynas â phobl sy'n darparu gofal a chymorth, teimlo'n fwy diogel, gan wella ansawdd canlyniadau gofal cymdeithasol a llesiant. Mae hyn yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o weld yr un person, gan gynyddu eu gallu i gynnal perthynas sy'n gallu lleihau unigrwydd ac unigedd, ac arwain at ofal o ansawdd uwch.

Nod cyflwyno egwyddorion a safonau comisiynu cenedlaethol yw lleihau cymhlethdod a symleiddio prosesau a fydd yn galluogi partneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau ar y cyd, ar draws ffiniau awdurdodau lleol, mewn ymateb i anghenion a chanlyniadau'r boblogaeth. Gall dileu rhywfaint o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd yn y broses gomisiynu ryddhau amser comisiynwyr i ddatblygu elfennau eraill o'r cylch comisiynu sydd wedi'u nodi fel rhai llai datblygedig na rhannau eraill. Bydd ffocws yr egwyddorion a'r safonau ar werth cymdeithasol yn helpu i sicrhau bod comisiynu gwerth cymdeithasol yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau, ac yn gwneud defnydd llawn o'r asedau sy'n bodoli mewn cymunedau lleol.

<u>Eitem 2 - Cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth</u>

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn y Papur Gwyn Ailgydbwyso ym mis Ionawr 2021 yn nodi ymatebion cymysg gan yr ymatebwyr ynghylch swyddfa genedlaethol. Roedd y rhai a oedd yn betrusgar ynghylch y syniad yn poeni y byddai hyn yn ychwanegu cymhlethdod heb werth ychwanegol, neu'n dyblygu rolau yn ddiangen. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae sefydliad y Swyddfa Genedlaethol wedi ystyried yn ofalus, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, lle y gellir ychwanegu gwerth, pa swyddogaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer y swyddfa a sut i leihau dyblygu. Rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ers ymgynghoriad y Papur Gwyn Ailgydbwyso yn 2021, ac wedi cynnwys rhanddeiliaid yng nghynlluniau sefydlu'r swyddfa genedlaethol, a byddwn yn parhau i wneud hynny drwy'r broses ymgynghori ffurfiol.

<u>Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol</u>

Mae costau byw cynyddol a gwahaniaethau mewn tâl yn y sector gofal cymdeithasol yn golygu bod cyflog ac amodau'n cael eu derbyn fel ffactorau arwyddocaol o ran recriwtio a chadw staff ym maes gofal cartref a chartrefi gofal. Mae'r pandemig wedi rhoi mwy fyth o bwysau ar sector sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd, ac wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cael strategaeth gweithlu sy'n pontio iechyd a gofal cymdeithasol.

Gallai'r fframwaith gael effaith fuddiol tymor hwy drwy sicrhau bod digon o ofal yn cael ei ddarparu, a gallai leddfu'r pwysau ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol drwy gydnabod y gweithlu gofal cymdeithasol, gan godi morâl ac ymroddiad, ysgogi gweithwyr i wneud defnydd gwell o'u sgiliau a'u hannog i barhau â'u datblygiad eu hunain a dysgu sgiliau newydd. Gall hyn effeithio'n gadarnhaol ar bobl Cymru hefyd wrth i wasanaethau gofal fod â mwy o gapasiti i gefnogi lleihau ôl-groniad triniaeth y GIG. Mae'r Fforwm yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, ond mae ei benderfyniadau a'i waith yn gwbl annibynnol arni. Datblygwyd y Fframwaith hwn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws y sector gofal cymdeithasol a chafodd ei lywio gan arolygon â ffocws ac ymgysylltu ledled y sector.

Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

Bydd effaith gyffredinol y newidiadau i God Ymarfer Rhan 2 yn gymharol gyfyngedig ynddynt eu hunain, gan fod hwn wedi bod yn ymarfer atgyfnerthu'n bennaf. Fodd bynnag, dylai diwygio'r bennod ar y ddyletswydd adran 16 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr a'r trydydd sector, ac egluro'r iaith a'r disgwyliadau ynghylch ailgydbwyso a 'gwerth cymdeithasol / ychwanegol' helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid, gan gynnwys darparwyr perthnasol, i groesawu'r cyfleoedd i ddatblygu ac ehangu'r rhan hon o'r farchnad gofal cymdeithasol. Dylai'r bennod newydd ar gyd-gynhyrchu gael effaith gadarnhaol hefyd o ran hyrwyddo cyfranogiad pobl wrth gynllunio a darparu gwasanaethau integredig, yn enwedig o'u cyfuno â chynigion Rhan 9 ar ymgysylltu a llais.

Eitem 5 - Canllawiau Statudol - Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

Mae trefniadau partneriaethau rhanbarthol wedi esblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi dod yn fforwm pwysig ar gyfer hyrwyddo mwy o weithio ac integreiddio rhanbarthol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Un o brif amcanion y cynigion ar gyfer gwelliannau i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ac ar gyfer diwygio Canllawiau Statudol Rhan 9 yw cryfhau'r trefniadau hyn a gwella rôl y byrddau fel y gallent gael mwy o effaith.

Datblygwyd y cynigion o fewn paramedrau cyfreithiol a pholisi penodol, ac fe'u cynlluniwyd i gael yr effaith fwyaf o fewn y terfynau hyn. Yn hollbwysig, nid yw'r cynigion yn newid statws BPRh, nad ydynt yn endidau cyfreithiol corfforaethol. Ystyriwyd newidiadau i statws BPRh fel rhan o'r Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, ond roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (ac yn arbennig y rhai gan fyrddau iechyd lleol a llywodraeth leol) yn erbyn hyn. Felly, mae'r cynigion presennol yn gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol a nodir yn Rhan 9 o Ddeddf 2014 a Rheoliadau 2015.

Fodd bynnag, yr hyn sydd wedi dod yn amlwg drwy drafodaethau yn y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, ac o drafodaethau ehangach gyda Chadeiryddion ac Arweinwyr BPRh, yw bod angen cryfhau'r fframwaith cyfreithiol presennol i adlewyrchu'r ffordd mae'r partneriaethau rhanbarthol wedi esblygu ac aeddfedu, ac i alluogi'r BPRh i gyflawni eu llawn botensial fel sbardunau ar gyfer newid go iawn. Bydd y gwelliannau arfaethedig i Reoliadau 2015 yn angenrheidiol i gryfhau a grymuso'r BPRh fel y gallant gael trosolwg effeithiol o'r trefniadau partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys ehangu amcanion y BPRh fel eu bod yn cynnwys sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflawni'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a threfniadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig; goruchwylio awdurdodau lleol wrth arfer eu dyletswydd o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010; a gweithio gyda Chorff newydd Llais y Dinesydd i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yng ngwaith y bartneriaeth ranbarthol.

Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o’r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Prif ddiben yr Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yw amlinellu camau gwella'r awdurdod lleol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rhai sy'n manteisio ar wybodaeth, cyngor a chymorth, a'r unigolion a'r gofalwyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth.

Dan ofynion newydd Deddf 2014, mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae Awdurdodau Lleol wedi hybu llesiant a darparu gwybodaeth am gyflawni safonau ansawdd. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau presennol, Cod Ymarfer Rhan 8 a'r Rheoliadau’n cyd-fynd â'r gofynion yn y Cod Ymarfer ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Y brif ddadl dros y newid yw lleihau dryswch i'r awdurdodau lleol wrth ddrafftio adroddiadau, gan fod gofynion sy'n gwrthdaro ar hyn o bryd. Felly, bydd y canllawiau newydd yn gwella ansawdd, cysondeb a defnyddioldeb yr Adroddiadau Blynyddol.

Y ddadl yn erbyn y newid yw y bydd angen amser ac adnoddau i weithredu unrhyw newid yn y gofynion adrodd ym mhob awdurdod lleol. Gallai hyn gael ei herio gan fod adnoddau'n gyfyngedig iawn yn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r ddadl hon wedi cael ei harchwilio gydag awdurdodau lleol drwy'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y camau nesaf yn ymwneud â chefnogi awdurdodau lleol gyda'r canllawiau newydd, a sicrhau bod yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ganddynt i’w paratoi.

**Costau ac Arbedion**

Eitem 1 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir

Nod y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yw gwella'r ffordd mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu ac, yn ei dro, y bwriad fydd cefnogi nodau cyffredinol presennol y system a sefydlwyd gan Ddeddf 2014 h.y. er mwyn sicrhau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Bydd hyn yn cynnwys symud y comisiynu oddi wrth bris tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol a hwyluso comisiynu ar y cyd rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ymhellach. O fewn y cyd-destun bod gofal cymdeithasol yn ddibynnol iawn ar ei weithlu, a'r angen i wella cyflogau'r gweithlu a thalu'r cyflog byw gwirioneddol o leiaf i'r gweithlu, mae'n debygol y bydd symud y broses gomisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a sicrhau bod y gweithlu'n cael ei dalu'n iawn yn arwain at gynnydd yn y gost o ddarparu gofal. Bydd angen i'r costau hyn gael eu hadlewyrchu gan gomisiynwyr lleol wrth gomisiynu gwasanaethau.

Rydym yn disgwyl y bydd costau gweinyddol trosiannol cymharol fach i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Bydd y rhain yn cynnwys costau hyfforddi staff h.y. comisiynwyr ac aelodau staff cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â chyflawni a gweithredu yn unol â'r Cod a chostau dosbarthu gwybodaeth. Mae Llywodraeth Cymru’n cynnal dadansoddiad i fesur costau posibl gweithredu'r newidiadau a darparu'r Cod. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd

yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a geir gyda'r Memorandwm Esboniadol a fydd yn cael ei gyhoeddi pan fydd y Cod yn cael ei osod gerbron y Senedd.

Eitem 2 - Cynigion ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth

Rhaid i'r Swyddfa Genedlaethol weithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan roi gwerth am arian. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn defnyddio ei hadnoddau dynodedig mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy, yn unol â'i therfynau dynodedig sydd wedi'u cytuno ac yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru ar reoli, rhagolygon, ac adrodd ariannol.

Mae'n debygol y bydd y brif gost ychwanegol a ragwelir yn gysylltiedig â'r trefniadau'n ymwneud ag adnoddau. Er nad yw'r rhain wedi'u pennu eto, bydd unrhyw swyddi newydd yn mynd drwy brosesau adnoddau arferol Llywodraeth Cymru ac yn cyd-fynd â pholisi ehangach y gwasanaeth sifil. Efallai y bydd angen rhywfaint o gyllid ychwanegol i gyflawni swyddogaethau newydd a ddaw o dan y swyddfa genedlaethol h.y.: trosolwg o'r pecyn cymorth ar gyfer y Cod Ymarfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir ond mae hyn yn debygol o ddod o fewn cylch(oedd) gwaith presennol unrhyw ddarparwr posibl, felly mae'r costau yr eir iddynt yn debygol o fod yn fach iawn.

Eitem 3 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol

Dyma ddrafft cychwynnol o fframwaith tâl a dilyniant gyrfa ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n nodi cyfres o fandiau ar gyfer gwahanol rolau ac yn cynnwys y sgiliau, gwerthoedd, gwybodaeth, dealltwriaeth a thasgau nodweddiadol ar gyfer pob un. Hefyd, yn y dyfodol, bydd yn cynnwys map gyrfa o gyfleoedd ar gyfer camu ymlaen yn y sector, a phecyn cymorth o broffiliau rôl enghreifftiol. Nid yw'r drafft hwn yn cynnwys y graddfeydd cyflog a ragwelir; bydd y rhain yn dilyn mewn fersiwn ddiweddarach. Byddant yn cael eu cytuno drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, gan ddefnyddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae'r Fforwm yn rhagweld y bydd y Fframwaith yn ganllaw gwirfoddol ar gyfer gweithwyr cyflogedig, cyflogwyr a chomisiynwyr gofal ac, ar hyn o bryd, ni fyddai ganddo unrhyw ofyniad ariannu.

Eitem 4 - Cod Ymarfer - Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

Nid oes unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol penodol i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â diwygio Cod Ymarfer Rhan 2. Mae'r newidiadau naill ai'n diweddaru'r cod yng ngoleuni canllawiau ac ymarfer atodol sy'n bodoli eisoes (e.e. yn ymwneud ag asesiad o anghenion y boblogaeth) neu'n cryfhau a rhoi mwy o ffocws i'r gofynion a'r canllawiau presennol (e.e. ar y ddyletswydd adran 16 i hyrwyddo ac ar gyd-gynhyrchu).

Eitem 5 - Canllawiau Statudol - Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

Efallai y bydd rhai costau i'r cyrff partneriaeth sy'n gysylltiedig â darparu mwy o gefnogaeth i aelodau BPRh, a rhai costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cynigion ynghylch hunanasesiadau BPRh a datblygiad cynlluniau cyflenwi blynyddol gan gyrff partneriaeth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r rhain yn adeiladu ar arferion da presennol ac mae gan y partneriaethau rhanbarthol y gallu i ddefnyddio elfen seilwaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gefnogi'r datblygiadau hyn. Mae'n ofynnol eisoes o dan Ran 9 o Ddeddf 2014 i'r cyrff partneriaeth ddarparu adnoddau i gefnogi gwaith y bartneriaeth ranbarthol, a rhaid i'r BPRh sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu digon o adnoddau ar gyfer y trefniadau partneriaeth.

Eitem 6 - Newidiadau i Ran 8 o’r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol penodol yn gysylltiedig â'r newid i'r Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol. Er ei bod yn debygol y bydd gofyniad i ddarparu cymorth wrth weithredu'r newid, rhagwelir y bydd staff presennol yn darparu hyn.

**Mecanwaith**

Mae'r cynigion yn y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth yn cynnwys casgliad o gynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Cânt eu disgrifio’n unigol yn adran 'cyflwyniad' y ddogfen hon.

**Adran 8 - Casgliad**

**Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?**

Mae'r adrannau 'cydweithredu' a 'cyfranogiad' yn Adran 1 y ddogfen hon yn disgrifio sut y datblygwyd pob cynnig yn y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth gyda chyfranogiad rhanddeiliaid allweddol, yn y cyfnod cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Yn unol â'r adrannau hynny, mae hyn wedi golygu cynnwys pobl mewn amryw o grwpiau a fforymau technegol a gynullwyd i gyd-ddatblygu a llywio'r cynigion.

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos yn gyfle pellach i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bob cynnig, a chael adborth ganddynt. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau penodol ar gyfer pob cynnig, yn ogystal â chwestiynau mwy agored i sicrhau bod pobl yn gallu cynnig adborth pellach ar feysydd nad yw swyddogion wedi'u hystyried o reidrwydd. Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol, bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi'n ofalus gan Lywodraeth Cymru (a chynrychiolwyr y Fforwm Gwaith Teg yn achos cynigion y fframwaith tâl a dilyniant gyrfa), gyda chyfle i ddiwygio cynigion ymhellach mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd. Cyhoeddir adroddiad ymgynghori llawn i grynhoi'r adborth a gafwyd ac i nodi'r camau nesaf.

**Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, rhai cadarnhaol a negyddol?**

Nodir yr effeithiau mwyaf arwyddocaol yn y cynigion yn yr adran 'Effaith' yn Adran 1 y ddogfen hon.

O ran effeithiau cadarnhaol arwyddocaol, mae'r rhain yn cynnwys rhai o amcanion strategol y Swyddfa Genedlaethol (Eitem 2), gan gynnwys hyrwyddo integreiddio i greu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor. Byddai effeithiau cadarnhaol posibl eraill y Swyddfa Genedlaethol yn cynnwys darparu cyfeiriad cenedlaethol i alluogi gwell canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol hefyd.

O ran y fframwaith tâl a dilyniant gyrfa (Eitem 3), mae effeithiau cadarnhaol arwyddocaol o bosibl o ran lleddfu'r pwysau presennol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r fframwaith, unwaith y bydd wedi'i gwblhau'n llawn, gan arwain at welliannau o ran cadw staff a chymhelliant y gweithlu.

O ran y newidiadau i Adroddiadau Blynyddol fel rhan o Eitem 6, disgrifir yr effeithiau cadarnhaol arwyddocaol fel mwy o eglurder i awdurdodau lleol wrth ddrafftio adroddiadau, gan arwain at welliannau yn eu hansawdd, eu cysondeb a'u defnyddioldeb. Yn fwy eang, bydd y newidiadau'n arwain at adroddiadau fydd yn caniatáu i Awdurdodau Lleol ddangos sut maent wedi hybu llesiant a chyflwyno gwybodaeth am gyflawni safonau ansawdd, gan dynnu sylw at arfer da a chefnogi rhagor o welliannau ym maes gofal cymdeithasol.

O ran unrhyw effeithiau negyddol, mae adran 'Effaith' y ddogfen hon yn disgrifio sut y bydd y newidiadau i Adroddiadau Blynyddol a gofynion yn arwain at gost o ran amser ac adnoddau mewn perthynas â gweithredu, gan roi pwysau pellach ar awdurdodau lleol o bosibl o ystyried bod adnoddau'n gyfyngedig eisoes mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Yn fwy eang, mae'r effaith negyddol bosibl hon yn rhan gynhenid o'r holl gynigion gan y bydd yr holl gynhyrchion hyn yn

cynnwys ffyrdd newydd neu ddiwygiedig o weithio, gyda chost gysylltiedig o ran amser ac adnoddau mewn perthynas â gweithredu.

**Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig: yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu'n osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i brofi rhagdybiaethau'r effeithiau a nodir yn yr asesiad hwn. Rydym yn gobeithio nodi effeithiau eraill y gallwn ni eu hystyried ymhellach wrth i ni ddatblygu'r cynigion a lliniaru effeithiau negyddol.

Byddwn yn defnyddio'r asesiadau a nodir yma ac asesiadau pellach i helpu i sicrhau y gellir darparu cynigion a ddatblygir o'r ymgynghoriad yn y ffordd orau i wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru.

Uchod, rydym wedi nodi effeithiau allweddol y cynigion, sy'n gadarnhaol gan mwyaf, gan gynnwys aliniad gyda'r nodau llesiant. Ar gyfer y prif effeithiau negyddol o ran yr heriau gweithredu, byddwn yn cefnogi ac yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion mewn partneriaeth sy'n sicrhau bod unrhyw feichiau gweithredu'n cael eu lleihau cyn belled ag y bo'n ymarferol.

**Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?**

Mae cynigion yn y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth yn cael eu monitro'n fewnol drwy fwrdd rhaglen. Mae'n goruchwylio gweithredu a datblygu'r cynigion hyn, ynghyd â llywodraethu'r rhaglen. Ochr yn ochr â'r bwrdd mewnol hwn, bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r gwahanol grwpiau a fforymau technegol a sefydlwyd i ddatblygu'r cynigion hyn, i geisio mewnbwn ar sut y gall rhanddeiliaid fod yn rhan o'r gwaith o fonitro a gwerthuso cynigion yn barhaus.

**Adran 9 – Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a’i chofnodi’n ddigonol.

Enw’r Uwch Swyddog Cyfrifol:

Matt Jenkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol ac Integreiddio.

Adran: Dyfodol ac Integreiddio

Dyddiad:  19/04/2023